Dinas a Sir Abertawe

# Cofnodion Cyfarfod y Cyd-Bwyllgor Dinas-Ranbarth Bae Abertawe

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 10 Chwefror 2022 am 10.30 am**

**Yn Bresennol:**

**Y Cynghorwyr:**

| | |
|---|---|
| Emlyn Dole | Cyngor Sir Gâr |
| Ted Latham | Cyngor Castell-nedd Port Talbot |
| A S Lewis | Cyngor Abertawe |
| David Simpson | Cyngor Sir Benfro |

**Cynrychiolwyr Cyfetholedig Heb bleidlais:**

| | |
|---|---|
| Chris Foxall | Chair of Swansea Economic Strategy Board |
| Steve Wilks | Prif Ysgol Abertawe |
| Emma Woollett | Bwrdd Lechyd Prifysgol Bae Abertawe |

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Gwasanaethau Democrataidd (Cyngor Abertawe) |
| Jonathan Burnes | Cyfarwyddwr (Dinas-ranbarth Bae Abertawe) |
| Karen Jones | Prif Weithredwr (Cyngor Castell-nedd Port Talbot) |
| Steven Jones | Cyfarwyddwr Datblygu (Cyngor Sir Benfro) |
| Tracey Meredith | Swyddog Monitro'r Cyd-bwyllgor (Cyngor Abertawe) |
| Chris Moore | Swyddog Adran 151 y Cyd-bwyllgor (Cyngor Sir Gâr) |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr (Cyngor Abertawe) |
| Phil Ryder | Swansea Bay City Deal Programme Office |
| Wendy Walters | Prif Weithredwr (Cyngor Sir Gâr) |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb:**
Y Cynghorydd(wyr)
Maria Battle (Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda) a/ac Medwin Hughes (University of Wales Trinity Saint David)

---

## 26 Ethol Cadeirydd Dros Dro.

**Penderfynwyd** ethol y Cynghorydd Emlyn Dole yn Gadeirydd y Cydbwyllgor dros dro.

Y Cynghorydd Emlyn Dole (Cadeirydd) fu’n llywyddu.

**27 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Cod Ymddygiad, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**28 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr 2021 fel cofnod cywir.

**29 Cyhoeddiad/Cyhoeddiadau'r Cadeirydd.**

Nid oedd unrhyw gyhoeddiadau.

**30 Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Ni chafwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

**31 Dosrannu Ardrethi Annomestig Cenedlaethol.**

Darparodd Phil Ryder (Swyddfa Rhaglen Bargen Ddinesig Bae Abertawe) adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i Gyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe am Adroddiad Monitro Chwarterol ac Uchafbwyntiau Misol Bargen Ddinesig Bae Abertawe ar gyfer Portffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe a'i raglenni/brosiectau cyfansoddol.

Rhoddodd y diweddaraf i'r Cyd-bwyllgor ar y cynnydd, sy'n gysylltiedig â'r canlynol:

- Ymgysylltu â Busnesau;
- Yr Egin;
- Prosiect Morol Doc Penfro;
- Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a'r Glannau (Arena i'w throsglwyddo cyn bo hir); Pentre Awel;
- Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer;
- Isadeiledd digidol;
- Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel;
- Sgiliau a Thalent.
- Campysau BDdBA.

Nodwyd bod tri risg goch yn parhau i gael eu nodi mewn perthynas â chostau adeiladu, newidiadau posib Tan15 a llithriant posib wrth ddarparu cynlluniau, a bod wyth risg is newydd wedi'u nodi.

Amlinellwyd a manylwyd ar gyflawni buddion o tua £160m, yn ogystal â'r 600+ o swyddi a grëwyd a'r cyfraniad o £60m i'r GYG.

**Penderfynwyd** nodi'r Adroddiad Monitro Chwarterol ar gyfer y Portffolio BDdBA a'i raglenni/prosiectau cyfansoddol.

## 32 Cynllun Cyfathrebu a Marchnata Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

Rhoddodd Chris Moore, Swyddog A151 ar y Cyd (Cyngor Sir Gâr) ddiweddariad manwl i Gyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe ar sefyllfa ariannol ddiweddaraf Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

Amlinellodd fod ychydig o danwariant yn y gyllideb ar hyn o bryd a manylodd ar y rhesymau a'r ffactorau y tu ôl i hynny, yn ogystal ag amlinellu crynodeb ariannol o'r naw cynllun, a'r sefyllfa fuddsoddi bresennol.

**Penderfynwyd** cymeradwyo adroddiad diweddaru monitro ariannol Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

## 33 Monitro chwarterol Portffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

Rhoddodd Chris Moore, Swyddog A151 ar y Cyd (Cyngor Sir Gâr) adroddiad i Gyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe a oedd yn rhoi gwybod iddynt am y trefniadau mewn perthynas â chadw a dosbarthu'r AAC ychwanegol a gynhyrchwyd drwy brosiectau rhaglen Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

Amlinellodd gefndir y mater, a dywedodd fod swyddogion Adran 151 o'r holl awdurdodau wedi cytuno ar Opsiwn 1.

**Penderfynwyd** nodi'r adroddiad a chymeradwyo argymhelliad y swyddog ar gyfer Opsiwn 1 mewn perthynas â'r ffaith bod y rhaglen y cytunwyd arni i gadw AAC yn cael ei chymeradwyo.

## 34 Monitro Ariannol Chwarterol Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

Cyflwynodd Heidi Harris, Swyddog Cyfathrebu a Marchnata BDdBA adroddiad a oedd yn amlinellu i'r Cydbwyllgor yr hyn a oedd wedi'i ddiwygio a'i ddiweddaru. Cynllun Cyfathrebu a Marchnata a gweithgareddau ymgysylltu manwl ar gyfer portffolio BDdBA a'i brosiectau cyfansoddol.

Dywedodd ei bod am greu rhai is-grwpiau i edrych ar faterion amrywiol a'u diweddaru wrth symud ymlaen.

**Penderfynwyd** nodi'r diweddariad cyfathrebu a marchnata gan gynnwys y Cynllun Cyfathrebu a Marchnata BDdBA diwygiedig sydd ynghlwm yn Atodiad A (i'r adroddiad) a'r Atodlen Cyfathrebu ac Ymgysylltu BDdBA sydd ynghlwm yn Atodiad B (i'r adroddiad).

Daeth y cyfarfod I ben am 11.11 am

**Cadeirydd**